Hawdd ei Ddeall

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Am y Gwasanaethau Cymdeithasol

Taflen Ffeithiau Hawdd ei Ddeall 1: Cyflwyniad i'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **Llywio Gwasanaethau Cymdeithasol. Taflen Ffeithiau 1: Cyflwyniad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)'.**

Mawrth 2023

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Mae geiriau mewn **ysgrifennu glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 13**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Ebost: gofyn@comisiynyddph.cymru

Ffôn: 03442 640 670

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd i'w deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif Trwydded Photosymbols yw 403527247

Cynnwys

Tudalen

Am Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.....4

Am y ddeddf sydd yn cael ei galw yn Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).....6

Y Ddeddf a Llesiant.....8

Mwy am beth mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ei wneud.....12

Geiriau anodd.....13

Am Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** yn gwarchod a hyrwyddo hawliau pobl hŷn ar draws Cymru.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn sicrhau bod pobl hŷn:

- yn gallu rhannu beth maen nhw'n feddwl
- cael dewis a rheolaeth
- peidio â theimlo'n unig
- cael y gefnogaeth a'r gwasanaethau maen nhw eu hangen
- dim **gwahaniaethu** yn eu herbyn.

Mae **gwahaniaethu** yn meddwl pan fyddwch chi yn cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd eich oedran, rhyw, hil, crefydd, anabledd neu hunaniaeth rywiol.

Mae'r **Comisiynydd** a'i thîm yn gweithio i wneud Cymru'n lle da i dyfu'n hŷn ynddo.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

Ebost: gofyn@comisiynyddph.cymru

Gwefan: www.comisiynyddph.cymru

Twitter: @talkolderpeople

Am y ddeddf sydd yn cael ei galw yn Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

Dyma ddeddf Gymreig sydd yn helpu i wneud yn siŵr bod y gofal a'r cymorth y mae pobl yn ei dderbyn yn iawn iddyn nhw.

Mae'n helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn gallu aros yn annibynnol mor hir ag maen nhw'n gallu. A bod eu dewisiadau yn cael eu dilyn.

Mae'r Ddeddf yn amddiffyn pobl rhag **camdriniaeth** ac **esgeulustod**.

Camdriniaeth ydy pan mae rhywun yn eich anafu chi neu yn eich trin yn wael. Mae llawer o wahanol fathau o **gamdriniaeth**.

Esgeulustod ydy pan nad ydy rhywun yn edrych ar eich ôl yn iawn. Math o **gamdriniaeth** ydy esgeulustod.

Mae'r Ddeddf hefyd yn gwneud yn siŵr bod gofalwyr yn cael eu trin yn deg. A'u bod nhw'n cael y gefnogaeth maen nhw ei angen.

Prif nodau'r Ddeddf ydy:

- **Llais a rheolaeth** – mae hyn yn meddwl eich rhoi chi a'ch anghenion yn gyntaf. A rhoi llais a rheolaeth i chi dros eich gofal a'ch cymorth.

- **Atal ac ymyrraeth cynnar** – mae hyn yn meddwl cynyddu nifer y gwasanaethau o fewn y gymuned fydd yn cefnogi eich anghenion a'ch annibyniaeth.

- **Llesiant** – mae hyn yn meddwl eich cefnogi i wella'ch llesiant a gweld pa mor dda mae gofal a chymorth yn gwneud hyn.

- **Drwy gydweithio** – mae hyn hefyd yn cael ei alw'n gyd-gynhyrchu. Mae'n meddwl eich cefnogi chi i gael cymryd rhan yn gyfartal wrth ddweud sut y dylai gwasanaethau edrych.

Y Ddeddf a Llesiant

Mae'r Ddeddf yn meddwl bod gan bawb yr hawl i **lesiant**. Mae hyn yn meddwl pethau fel:

- Pobl yn hapus.
- Mae pobl yn dda.
- Mae gan bobl hawliau.
- Mae gan bobl gartref da.
- Mae pobl yn rhan o'r gymuned.
- Mae gan bobl ddigon o arian.

Rhagor am beth mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ei wneud

Yr awdurdod lleol ydy eich cyngor.



Mae'n rhaid i awdurdod lleol wneud yn siŵr bod gwybodaeth am ofal a chymorth yn **hygyrch**.

Mae **hygyrch** yn meddwl bod pobl yn gallu defnyddio rhywbeth beth bynnag ydy eu anghenion. Er enghraifft, gwneud yn siŵr bod gwybodaeth ar gael yn **Hawdd ei Ddeall**.

Mae gennych chi hawl i wneud penderfyniadau am eich gofal a'ch cymorth. A chael eich trin **yn gyfartal** wrth wneud y penderfyniadau hynny.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ddeall eich bod chi'n gwybod beth sydd orau i chi.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol wrando ar eich barn ym mhob rhan o'ch cymorth. A gwneud yn siŵr bod gennych **eiriolwr**, os ydych chi angen un.

Eiriolwr ydy rhywun sy'n codi llais drosoch i'ch helpu i ddweud beth rydych chi am ei ddweud a chael eich anghenion wedi eu hateb.

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol feddwl am eich anghenion. A gwneud yn siŵr eich bod yn cael y cymorth rydych chi ei angen ar yr adeg iawn.

Mae'n rhaid i rai pobl dalu am eu gofal a'u cymorth. Bydd yr awdurdod lleol yn edrych i weld os oes angen i chi dalu unrhyw beth.

Os ydych chi yn gallu cael cymorth i dalu am ofal a chymorth rydych chi'n gallu derbyn **taliadau uniongyrchol**, os ydych chi'n dymuno.

Mae **taliad uniongyrchol** yn arian rydych chi'n gallu ei gael yn lle gwasanaeth. Rydych chi'n gallu ei ddefnyddio i brynu eich cymorth a'ch gwasanaethau eich hun.

Os ydy awdurdod lleol yn meddwl bod rhywun sydd ag anghenion cymorth mewn perygl o **gamdriniaeth** neu **esgeulustod** mae'n rhaid iddyn nhw edrych i mewn iddo.

Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn

Dyma set o ganllawiau gan y **Cenhedloedd Unedig**. Maen nhw'n dweud sut y dylai pobl hŷn gael eu trin.

Rhaid i'r Ddeddf ddilyn y canllawiau yma. A dangos sut maen nhw wedi eu dilyn.

I gael rhagor o wybodaeth am **Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig** ar gyfer Pobl Hŷn, ewch i'n gwefan:

comisiynyddph.cymru/amdano/cynllun-cyhoeddi/ein-polisiau/egwyddorion-y-cenhedloedd-unedig-ar-gyfer-personau-hyn

Geiriau anodd

Camdriniaeth

Camdriniaeth ydy pan mae rhywun yn eich anafu chi neu yn eich trin yn wael. Mae llawer o wahanol fathau o gamdriniaeth.

Esgeulustod

Esgeulustod ydy pan nad ydy rhywun yn edrych ar eich ôl yn iawn. Math o gamdriniaeth ydy esgeulustod.

Eiriolwr

Eiriolwr ydy rhywun sy'n codi llais drosoch i'ch helpu i ddweud beth rydych chi am ei ddweud a chael eich anghenion wedi eu hateb.

Hygyrch

Mae hygyrch yn meddwl bod pobl yn gallu defnyddio rhywbeth pa bynnag anghenion sydd ganddyn nhw.

Er enghraifft, gwneud yn siŵr bod gwybodaeth ar gael yn Hawdd ei Ddeall.

Taliadau uniongyrchol

Mae taliad uniongyrchol yn arian rydych chi'n gallu ei gael yn lle gwasanaeth. Rydych chi'n gallu ei ddefnyddio i brynu eich cymorth a'ch gwasanaethau eich hun.